NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Sgan uwchsain dwysedd isel sy'n pylsadu i hyrwyddo'r broses o wella toriadau sy'n araf yn uno, a thoriadau sy'n methu ag uno

31 Gorffennaf 2018

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio ar gyfer toriadau (toriadau asgwrn) sydd heb wella. Nid oes unrhyw bryderon difrifol am ei diogelwch. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio.

Gall toriadau gymryd sawl mis i wella. Pan nad yw asgwrn yn llwyddo i wella gelwir hyn yn 'doriad sy'n methu ag uno'. 'Toriad sy'n araf yn uno' yw pan mae'r asgwrn yn cymryd mwy o amser nag arfer i wella. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys triniaeth ddyddiol (fel arfer am tua 15 i 20 munud), gan ddefnyddio stiliwr uwchsain a leolir ar y croen ar safle'r toriad. Y nod yw annog y broses o wella, gan ysgogi celloedd asgwrn i dyfu ac adnewyddu.

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?

- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3027-2